

## Brîff ar gyfer Tendr

### Ymgynghorydd Llawrydd, Ymgynghoriad a Hyfforddiant ar Gwricwlwm Cymreig ar gyfer Amgueddfeydd

<b>Rôl:</b>	Ymgynghorydd Llawrydd, Ymgynghoriad a Hyfforddiant ar Gwricwlwm Cymreig ar gyfer Amgueddfeydd
<b>Lleoliad:</b>	Gweithio o bell/gweithio gartref
<b>Ffi:</b>	£3,000
<b>Statws:</b>	Ymgynghoriad Llawrydd
<b>Adrodd i:</b>	Rachel Tranter, Cyfarwyddwr, Grŵp ar gyfer Addysg mewn Amgueddfeydd (GAA)
<b>Cyfnod y contract:</b>	Medi 2021 - Ionawr 2022

#### 1. Cefndir

Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd (GAA) yw sefydliad cymorth cenedlaethol y DU ar gyfer dysgu mewn amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth. Ein nod yw cefnogi a galluogi pobl sydd â diddordeb mewn dysgu amgueddfeydd a threftadaeth, i gysylltu a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i ddarparu cyfleoedd dysgu treftadaeth.

O fis Medi 2022 bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y wlad. Mae GAA wedi sicrhau grant gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (IAALI) yn Llywodraeth Cymru i gynnal Ymgynghoriad Cwricwlwm Cymreig, ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith i ddeall a chefnogi anghenion datblygu gweithlu amgueddfeydd Cymru yn well, gan eu galluogi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd dysgu a gynigir trwy'r cwricwlwm newydd.

Rydym yn cydnabod bod y pwyslais newydd ar brofiad uniongyrchol yn darparu cyfleoedd gwych i gynyddu nifer yr ymweliadau ysgol (yn ddigidol ac yn gorfforol) ag amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yng Nghymru. Mae ymgynghoriad cychwynnol gyda'r sector amgueddfeydd a threftadaeth yn dangos bod croeso i hyfforddiant a chefnogaeth ynghylch y cwricwlwm newydd. Er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a'r hyfforddiant hwn yn berthnasol, rydym yn cynnig comisiynu'r prosiect hwn i:

- Ymgynghori ag ystod o amgueddfeydd Cymru i bennu'r lefelau presennol o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch Cwricwlwm Cymreig newydd ac i nodi anghenion a darparu hyfforddiant
- Deall anghenion y sector addysg ffurfiol mewn perthynas â chefnogaeth cwricwlwm amgueddfeydd trwy ymgynghori â rhwydweithiau addysg yr ALI ac ysgolion yng Nghymru

## 2. Amcanion

Mae'n ofynnol i ymgynghorydd profiadol gyflawni'r Ymgynghoriad Cwricwlwm Cymreig hwn a'r adroddiad sy'n deillio ohono. Bydd yr ymgynghorydd yn cyflawni'r tasgau canlynol:

### i. Ymgynghoriad:

Ymgynghori ag amgueddfeydd (gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, y Brifysgol, Annibynnol a Chenedlaethol) ledled Cymru i nodi anghenion hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni'r Cwricwlwm Cymreig newydd.

Ymgynghori â'r sector addysg ffurfiol yng Nghymru (gan gynnwys neu trwy'r Consortia Gwella Ysgolion Cymru rhanbarthol, rhwydweithiau addysg ac ysgolion) i nodi anghenion cymorth a chyfleoedd ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd trwy amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth.

### ii. Hyfforddiant:

Fel elfen o'r ymgynghoriad hwn, mae tîm GAA yn rhagweld y bydd yr ymgynghorydd yn cynnal o leiaf un digwyddiad hyfforddi yn ymgorffori athrawon ac addysgwyr amgueddfeydd er mwyn archwilio pethau cyffredin, heriau a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi a chyflwyno yn y dyfodol.

### iii. Argymhellion Canlynol:

Argymhellion ar gyfer unrhyw ddatblygiad sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth yn y dyfodol i gyflawni'r cwricwlwm newydd yn sector amgueddfeydd, orielau a threftadaeth Cymru.

## 3. Meini Prawf Dethol

Mae arnom angen profiad a gwybodaeth amlwg fel a ganlyn:

### Meini prawf hanfodol

- Gwybodaeth amlwg o'r datblygiadau cwricwlwm newydd hyd yn hyn
- Gwybodaeth amlwg o addysgeg addysg amgueddfa/treftadaeth
- Hanes profedig o ymgynghoriad amgueddfeydd/treftadaeth
- Hanes profedig o ddylunio a darparu datblygiad proffesiynol
- Hanes profedig o gyflawni prosiectau ar amser ac yn unol â'r gyllideb
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig amlwg
- Gwybodaeth amlwg o'r sector amgueddfeydd yng Nghymru
- Gwybodaeth amlwg o'r sector addysg ffurfiol, gan gyfeirio'n benodol at gyd-destun Cymru.

### Dymunol

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu'r Gymraeg
- Rhwydweithiau gweithredol yn sector amgueddfeydd Cymru
- Dealltwriaeth dda o bolisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

## 4. Amserlen

- Dyddiad cau ceisiadau yw Dydd Llun 13eg Medi 2021
- Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer gan banel sy'n cynnwys Rachel Tranter, Cyfarwyddwr GAA, a chynrychiolwyr GAA Cymru
- Dylai'r gwaith ddechrau erbyn diwedd mis Medi / dechrau mis Hydref.

- Drafft terfynol o'r argymhellion a gyflwynwyd erbyn 31ain Ionawr 2022.

## 5. Cyllideb

Y cyfanswm sydd ar gael yw £3,000 (gan gynnwys TAW) ar gyfer recriwtio, ymgynghori, hyfforddi ar-lein ac argymhellion.

Y taliad a awgrymir bydd 50% ar ôl penodi a 50% ar ôl derbyn yr argymhellion a chyflwyno'r canfyddiadau.

## 6. Cynnig

Dylai eich cynnig i gyflawni'r prosiect hwn gynnwys:

- Profiad braslun bywyd/cymwysterau i chi'ch hun/pwy bynnag fydd yn cyflawni pob cydran fer
- Enghreifftiau o brosiectau tebyg yr ymgwymerwyd â hwy
- Methodoleg o sut rydych chi'n cynnig cwrdd â gofynion y brîff
- Rhaglen sy'n nodi sut y byddech chi'n cyflawni'r prosiect, gan gynnwys union nifer y diwrnodau a ddyrannwyd i bob tasg a cherrig milltir allweddol.
- Y dadansoddiad cost
- Manylion dau ganolwr yr ydych wedi gwneud gwaith tebyg ar eu cyfer

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion yw.

E-bostiwch eich cyflwyniad at Rachel Tranter, Cyfarwyddwr GAA yn [rachel@gem.org.uk](mailto:rachel@gem.org.uk)

I gael sgwrs anffurfiol am y prosiect, cysylltwch â Rachel Tranter, Cyfarwyddwr GAA yn [rachel@gem.org.uk](mailto:rachel@gem.org.uk)